# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 26.01.22 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril
## Yn dilyn rheolau diogelwch Covid-19

**Presennol:** Kevin Goodchild - Cadeirydd (KG), Keith Carroll – Is Gadeirydd (KC), Dylan Thomas (DT), Geraint Edwards (GE), Geraint Micah (GM), David Griffiths (DG), Ian Williams (IW), Debbie Taylor-Bond - Clerc (DTB), Louise Hughes – Cynghorydd Sirol (LH)

**1. Ymddiheuriadau:** Huw Davies (HD), Jenny Warne (JW), John Griffiths (JG)

**a) Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**b) Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **08.12.21** fel rhai cywir
**Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Geraint Edwards **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild

**2. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.12.21):**

**a) Prosiectau Cymunedol Bach -** cytuno i osod mainc blastig gynaliadwy yn lle un o'r hen feinciau, a cheisio gwneud cais am gyfraniad gan y "Prosiect Cymunedol Bach"
**Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Ian Williams
I'w weithredu gan – DTB.

**b) Newid Cyfrif Banc** - aros i Nat West gwblhau y gwaith angenrheidiol i agor y cyfrif newydd
Taliadau i'w gwneud o'r cyfrif newydd
I'w weithredu gan – DTB.

**c) Tyrchod daear yn y Cae Chwarae –** gwaith yn parhau i geisio dal y tyrchod!
I'w weithredu gan – DTB.

**3. Gohebiaeth:**

**a)** Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am eich barn am Strategaeth Genedlaethol Ddiwygiedig i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - Louise Hughes i gyflwyno ei sylwadau.
**b)** Newyddion Coronafeirws 14/01/2022 – diweddariad wedi ei dderbyn.
**c)** Llunio Dyfodol Cymru – gwybodaeth wedi ei dderbyn.

**4. Materion Cynllunio:**

**a) NP5/69/60B: Yr Hen Felin, Llwyngwril, LL37 2JY**
Ymestyn a throsi adeilad allanol i ffurfio llety annecs
Cais wedi cael ei drafod a dim sylwadau i'w cyflwyno.

**b) NP5/69/301E: Parc Carafanau Llwyn Du, Llwyngwril, LL37 2JH**
Cais ôl-weithredol i osod offer chwarae i blant
Cais wedi cael ei drafod a dim sylwadau i'w cyflwyno.

**c) NP5/69/348B: Machlud Haul, Llwyngwril, LL37 2JQ**
Estyniad ochr a blaen ar y llawr gwaelod gan gynnwys estyniad i'r balconi, ac estyniad cefn ar y llawr gwaelod isaf
Cais wedi cael ei drafod a dim sylwadau i'w cyflwyno.

**5. <u>Adroddiad Ariannol</u>**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Rhagfyr 2021 yn gywir.
**Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Dave Griffiths **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild

- Anfonebau i'w talu ym Mis Ionawr:- Cyngor Gwynedd - tori gwair = £1,060.00
  G Williams (gwaith trydannol i'r goleuadau Nadolig) = £89.21

**6. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>** Dim

**7. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:** Derbynwyd adroddiad gan Louise Hughes.

**8. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

**a) Coed Nadolig –** Llythyr i gael ei anfon i Mr Emlyn Roberts i ddiolch am y Goeden Nadolig yn Llwyngwril
I'w weithredu gan – DTB

**b)** Ymgynghoriad ar ail gartrefi – trafodaeth ar y mater yma ac ymholiadau i gael eu gwneud i weld os yw'r ymgynghoriad yn dal ar agor
I'w weithredu gan – DTB

**c) Torri gordyfiant llwyn yn Rhoslefain** – gwaith wedi ei gwblhau yn effeithiol.

**d) Cod QR Historypoints** – Cod QR heb ei ddarparu ar giat yr Eglwys yn Llwyngwril – cysylltu â Historypoints eto
I'w weithredu gan – DTB

**e) Materion Priffyrdd** - adrodd ar y materion canlynol i Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd iddynt weithredu arnynt
I'w weithredu gan – DTB

- Difrod i wal – ochr chwith ger Y Nant, Llwyngwril
- Adnewyddu llinellau dwbl melyn a baeau yn y meysydd parcio
- Llwybr i'r traeth – cyflwr y llwybr
- Ffordd yr Orsaf – cais gan drigolion y gymuned am ffens neu giat
- Clirio sianeli draenio

**d) Ail-lenwi Biniau Halen** – llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd y biniau halen yn cael eu llenwi heb gost i'r Cyngor Cymuned, fel rhan o fuddsoddiad y Cyngor mewn gwasanaethau gaeaf.

**e) Hysbysiad cau ffordd** - cau ffordd ddiddosbarth gyferbyn â Nant Isaf ar 08/02/22 am hyd at 3 diwrnod.

**f) Network Rail** – i gadarnhau eu hargaeladd i gyfarfod nesaf y cyngor cymuned …. (i drafod y cynllun gwella)
I'w weithredu gan – DTB.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 09.02.22 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**